Sut i sefydlu

# Siop Gymunedol




Plunkett UK
Rural Community Business

# Cynnwys


**Beth yw siopau cymunedol?** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

**Pam fod siopau cymunedol yn bwysig?** . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

**Sut y gall Plunkett helpu?** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7

1. Cysylltwch â Plunkett UK cyn gynted â phosibl . . . . . 7
2. Sut y gallwch elwa o ymuno â Plunkett UK? . . . . . . . . . 7

**Sut y mae mynd ati i sefydlu neu i achub siop fel busnes cymunedol?** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

1. Ymgynghori â'r gymuned . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9
2. Ffurfio grŵp llywio . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 11
3. Dewis strwythur cyfreithiol addas . . . . . . . . . . . . . . . . . 12
4. Deall a datblygu eich trefniadau llywodraethu . . . . . 13
5. Dod o hyd i safle addas . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14
6. Llunio cynllun busnes . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14
7. Codi arian . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16
8. Gweithwyr a gwirfoddolwyr . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16
9. Polisïau a gweithdrefnau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 18
10. Rhoi trefn ar y siop, cael hyd i gyflenwyr a pharatoi i fasnachu . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 19
11. Rhestr wirio: a ydych wedi meddwl am bopeth? . . 20
12. Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch dyddiad lansio ac agor y siop! . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 20

**Ynglŷn â Plunkett UK** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 22

Aelodaeth Plunkett UK . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 22

Cysylltu â ni . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 22

# Beth yw siopau cymunedol?

Mae siopau cymunedol yn eiddo i aelodau o'u cymuned, neu'n cael eu lesio ganddynt, ac maent yn cael eu rhedeg ganddynt mewn ffordd ddemocrataidd.

Mae siopau cymunedol yn masnachu'n bennaf er budd y gymuned, ac mae eu buddiannau'n gysylltiedig â rheolaeth gymunedol. Mae aelodaeth siopau cymunedol yn agored ac yn wirfoddol, gyda'u haelodau'n rhan-berchnogion o'r busnes a phob aelod yn cael llais cyfartal o ran sut y mae'r busnes yn cael ei redeg, beth bynnag fo maint ei fuddsoddiad. Mae'r aelodau'n ethol pwyllgor yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau, ac mae'r pwyllgor yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros y gymdeithas.

**Ceir llawer o fodelau rheoli ar gyfer siopau cymunedol**; caiff y mwyafrif eu rheoli a'u rhedeg yn uniongyrchol gan y gymuned, gan mwyaf drwy gyfuniad o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, a rhai gan wirfoddolwyr yn unig neu gan staff cyflogedig yn unig. Mae nifer lai o gymunedau'n penderfynu lesio neu osod y gwaith o redeg y busnes i denantiaid unigol neu i weithredwyr masnachol ar ôl iddynt sicrhau safle sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd pob cymuned yn dod o hyd i'r ateb sy'n gweithio orau iddi hi, ond y model a hyrwyddir gan Plunkett UK yw cyflogi rheolwr siop a chael tîm o wirfoddolwyr. Gall rheolwr cyflogedig helpu i sicrhau bod materion ariannol, y gwaith o archebu a rheoli'r stoc, pob agwedd ar ddeddfwriaeth, a'r ddarpariaeth staff yn cael eu rheoli mewn ffordd gyson, a bydd tîm o wirfoddolwyr yn cyfrannu at fywiogrwydd y siop, yn ychwanegu amrywiaeth o sgiliau a syniadau, ac yn lleihau'r costau staffio.




Barkers of Huby
Nominated for the Independent Retailer Award
PLAY NOW
GUARANTEED!
5 TIMES
MORE LIKELY TO WIN
THAN WITH THUNDERBALL
Smart meters
Letter Size Guide
BARKERS
OF HUBY

# Pam fod siopau cymunedol yn bwysig?

Community shops are an effective mechanism for safeguarding essential retail outlets in rural areas, but they also have wider social, economic and environmental benefits.

### Mae siop gymunedol yn fwy na siop

Mae siopau cymunedol yn dod yn ganolfannau ar gyfer eu cymunedau yn rhinwedd eu horiau agor hir, eu lleoliad sy'n aml yn un canolog, y ffaith eu bod yn agored i'r gymuned gyfan eu defnyddio, a'r ffaith eu bod yn gallu lletya ystod eang o wasanaethau yn ogystal â gwerthu bwyd a diod. O ganlyniad i nifer y cwsmeriaid sy'n pasio drwyddynt, eu gwirfoddolwyr, cyfarfodydd eu haelodau, a'u tasgluoedd, maent yn sbarduno gweithgarwch cymdeithasol ac yn helpu i greu ymdeimlad o gymuned. Gall yr amgylchedd cymdeithasol hwn roi cyfle i bobl fod yn rhan o fywyd y gymuned, creu rhwydweithiau cymorth anffurfiol, a rhoi ymdeimlad o berthyn, o bwrpas ac o hunan-werth i rai. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer grwpiau o bobl sy'n agored i niwed neu bobl sydd wedi'u hynysu yn y gymdeithas, fel pobl hŷn, gofalwyr, a'r rheini sy'n unig.

### Cryfhau cymunedau ac achub ar gyfleoedd

Ledled y wlad, mae pentrefi wedi mynd ati i ddefnyddio'u siopau cymunedol mewn ffyrdd creadigol, gan achub ar y cyfle o gael gofod cymunedol i ddarparu cynifer o wasanaethau â phosibl. Er enghraifft, ymhlith ffyrdd o wella gofal iechyd a llesiant cymdeithasol, mae gosod neu ariannu diffibriliwr ar gyfer y pentref, darparu gofod ymgynghori ar gyfer meddygon teulu a nyrsys sy'n ymweld, gweithredu fel mannau casglu presgripsiynau, cynnal nosweithiau a gweithdai cymorth cyntaf, cydgysylltu dosbarthiadau ffitrwydd neu grwpiau cerdded, cludo nwyddau i gartrefi pobl na allant adael eu cartrefi, codi ymwybyddiaeth o ddementia, a mynd gam ymhellach i gynorthwyo eu cwsmeriaid rheolaidd.

Mae'r siopau hefyd yn ofod ar gyfer dosbarthiadau a gweithdai, fel dosbarthiadau celf, clybiau ar ôl yr ysgol, boreau coffi, clybiau clonc a gwau, grwpiau gofalwyr, clybiau darllen, nosweithiau ffilmiau, clybiau cinio, a chyfarfodydd ffermwyr.



## Mae Plunkett UK wedi bod yn monitro llwyddiant siopau cymunedol, a'r defnydd ohonynt, ers blynyddoedd lawer. Dyma rai ystadegau o'n hadroddiad Better Business a gyhoeddwyd yn 2024 a'n Hadroddiad Effaith a gyhoeddwyd yn 2025 pan ysgrifennwyd yr adnodd hwn:

Amcangyfrifir bod 300-400 o siopau pentref yn cau bob blwyddyn, ac mae perchnogaeth gymunedol yn helpu i ddiogelu siopau a gwasanaethau hanfodol ar gyfer cymunedau gwledig. **Erbyn hyn, ceir 800+ o fusnesau cymunedol ledled y Deyrnas Unedig (y DU), ac mae dros 50% o'r rheini'n siopau** – mae hyn yn golygu bod 433 cymuned o ogledd yr Alban i dde Cernyw yn elwa o gael siop sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei harwain ganddi wrth galon y gymuned.

**Mae tua 15 siop newydd yn agor bob blwyddyn**, wedi'u hysbrydoli gan gyfradd lwyddiant ragorol gweddill y rhwydwaith siopau. Ac mae'r gyfradd oroesi hirdymor o 94% yn drawiadol.

Mae siopau cymunedol o fudd **arbennig i'r rheini sydd o dan anfantais** am nad oes ganddynt gerbyd personol, y rheini sy'n ei chael yn anodd symud, a'r rheini sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd i wirfoddoli.

Mae siopau cymunedol yn **denu niferoedd mawr o aelodau'r gymuned** i gymryd rhan ac yn sbarduno gweithgarwch cymdeithasol a chydlyniant cymunedol: fel arfer, bydd ganddynt 142 aelod, a saith aelod pwyllgor.

Ar gyfartaledd, mae gan siopau cymunedol 28 gwirfoddolwr sy'n cynorthwyo'n rheolaidd ac, o ystyried bod gan 97% o siopau cymunedol wirfoddolwyr, mae amcangyfrif bras o'r sector cyfan yn rhoi cyfanswm o **dros 11,500 o wirfoddolwyr sy'n cefnogi siopau cymunedol ledled y DU**.





Mae siopau cymunedol hefyd yn darparu cyflogaeth leol, gyda siopau fel arfer yn darparu pedair swydd gyflogedig (swyddi amser llawn a rhan-amser). **Yn 2023, cyfanswm y gwariant ar gyflogau oedd oddeutu £42,727 ar gyfartaledd, a hynny ar gyfer 99 siop gymunedol a reolir**.

Drwy greu **1,340 o gyfleoedd cyflogaeth cyfwerth ag amser llawn**, amcangyfrifir bod y sector siopau cymunedol yn cynhyrchu £14.3m o gyfoeth cymunedol drwy gyflogau lleol. Yn ôl adroddiad Better Business 2024, mae oddeutu **18% o'r swyddi a ddarperir gan siopau cymunedol yn rhai ar gyfer pobl ifanc**.

Maent yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol; mae ganddynt drosiant o £202,000 ar gyfartaledd, ac maent yn cefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol ac yn creu cyflogaeth.

Mae siopau cymunedol yn dod yn **ganolfannau cymunedol** am mai'r rhain fel arfer yw'r unig ganolfannau manwerthu o fewn radiws o bedair milltir, am fod eu horiau agor yn hir, ac am eu bod yn lletya gwasanaethau eraill, gan gynnwys swyddfeydd post. Mae gan gyfran fawr ohonynt gaffis, a gwasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaeth cludo nwyddau i'r cartref, gwasanaeth casglu presgripsiynau, gwasanaeth sychlanhau, gwasanaeth bancio, a gwasanaeth gwerthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau lleol.

Yn ogystal â chael gafael ar **fwyd lleol nad yw wedi gorfod teithio'n bell**, mae siopau cymunedol yn atal trigolion ardaloedd gwledig rhag gorfod teithio mewn car i siopau bwyd eraill, **gan beri nad oes rhaid iddynt wneud taith gron wyth milltir o hyd ar gyfartaledd**. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod siopau cymunedol yn **arbed pedair miliwn o filltiroedd o siwrneiau gyda char bob blwyddyn**.

Mae siopau cymunedol yn aml yn **rhaff achub** i lawer o aneddiadau eraill cyfagos ac, ar gyfartaledd, **maent yn darparu gwasanaethau i rhwng tri a phedwar pentref arall**.

Felly, amcangyfrifir bod **1,400 o gymunedau gwledig yn elwa ar y 346 o siopau cymunedol** sy'n masnachu ar hyn o bryd ledled y DU.



# Sut y gall Plunkett helpu?

## 1. Cysylltwch â Plunkett UK cyn gynted â phosibl

Mae Plunkett UK wedi cydweithio â'r rhan fwyaf o'r siopau cymunedol sy'n masnachu ar hyn o bryd ac sydd wrthi'n ymsefydlu.

Gall ein llinell gymorth ddarparu gwybodaeth a chymorth i gymunedau ym mhob cam o'r siwrnai o sefydlu neu redeg siop gymunedol, a gall eu cyfeirio at sefydliadau a ffynonellau cymorth perthnasol eraill. Ochr yn ochr â'r llinell gymorth, gall Plunkett ddarparu cymorth i unrhyw gymuned wledig yn y DU drwy dîm o weithwyr penodedig, rhwydwaith o gynghorwyr rhanbarthol, mentoriaid a chynghorwyr arbenigol. Mae Plunkett hefyd yn lletya Grŵp Facebook ar-lein ar gyfer siopau cymunedol, ynghyd â gwefan sy'n cynnwys adnoddau amrywiol. At hyn, mae Plunkett yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddi ar gyfer siopau cymunedol ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Drwy ichi gysylltu â'r llinell gymorth o'r dechrau'n deg, bydd Plunkett yn gallu rhoi cyngor ichi am y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, eich cyfeirio at yr wybodaeth a'r adnoddau mwyaf perthnasol, a'ch cynorthwyo i bennu'r camau nesaf y mae angen ichi eu cymryd i roi'ch prosiect ar waith.

## 2. Sut y gallwch chi elwa o ymuno â Plunkett UK?

Sefydliad aelodaeth yw Plunkett UK, ac rydym yn mynd ati i annog y cymunedau yr ydym yn cydweithio â nhw i ymaelodi. Mae hyn yn ein cynorthwyo i gadw cysylltiad â'r busnesau cymunedol yr ydym wedi helpu i'w sefydlu, ac mae hefyd yn sicrhau bod ein gwasanaethau cymorth yn parhau i fod yn berthnasol i bob busnes cymunedol tra mae'n ymsefydlu a phan fydd yn masnachu.

Fel Aelod Busnes Cymunedol, byddwch yn gallu cael gafael ar becyn pwrpasol o wybodaeth, cyngor a chymorth gan Plunkett UK, ein cynghorwyr, a rhwydwaith o gyflenwyr a argymhellir sy'n deall anghenion busnesau cymunedol.

Drwy gydweithio'n agos â'n haelodau, bu modd inni negodi ystod eang o nwyddau a gwasanaethau ar delerau a chyfraddau ffafriol gyda chyflenwyr. Dewisir y cyflenwyr hyn ar sail y gwerth y gallant ei gynnig i'r aelodau, eu hymrwymiad i wasanaeth cwsmeriaid, a'r ffaith bod eu gwerthoedd a'u hethos yn gydnaws â rhai Plunkett a'r sector busnesau cymunedol. Mae ein perthynas gref â phob un o'n cyflenwyr yn sicrhau eu bod yn deall anghenion ein haelodau ac yn gallu darparu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau cywir i ddiwallu'r anghenion hynny.

Drwy ymaelodi, cewch ostyngiadau ar brisiau digwyddiadau a phecynnau hyfforddi Plunkett, yn ogystal â chymorth cynghori ychwanegol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ymaelodi â Plunkett drwy fynd i wefan *www.plunkett.co.uk* neu drwy anfon e-bost i *membership@plunkett.co.uk*.




DANCING GOAT COFFEE BLEND
Countryside Alliance Awards
PLEASE NOMINATE ME
Barkers of Huby
NOMINATE NOW
countryside-alliance.org/caawards
BARKERS
OF HUBY
BARKERS
OF HUBY

# Sut y mae mynd ati i sefydlu neu i achub siop fel busnes cymunedol?

## 1. Ymgynghori â'r gymuned

Drwy ymgynghori â'r gymuned uniongyrchol a'r ardal gyfagos, bydd modd ichi fesur maint y gefnogaeth i'r prosiect, a chael syniad o'r hyn y byddai'r gymuned yn hoffi i'r siop ei gynnig. Bydd hefyd yn eich cynorthwyo i bennu a yw'r gymuned yn barod i fuddsoddi yn y prosiect ac, os felly, faint y mae'n barod i'w fuddsoddi.

Drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach, byddwch yn creu cyfle i gael adborth ar eich syniadau ac i gael syniadau newydd nad ydych wedi'u hystyried hyd yma. Bydd hefyd yn gyfle ichi bennu pobl â sgiliau perthnasol i'w cynnwys yn y prosiect. Bydd hyn yn rhoi ymdeimlad llawer cryfach i'r gymuned ei bod yn berchen ar y fenter, ac felly bydd mwy o siawns iddi lwyddo.

### Holiaduron

Mae holiadur yn ffordd dda o ymgynghori, oherwydd gallwch gyrraedd pob aelwyd yn eich dalgylch, a rhoi amser i bobl ymateb yn eu ffyrdd eu hunain. Mae gan Plunkett holiadur enghreifftiol sy'n fan cychwyn defnyddiol.

Dylech gasglu holiaduron â llaw i sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn ymateb, yn ogystal â darparu man casglu holiaduron. Gallwch ddefnyddio'r wasg leol, papurau bro a chylchgronau cymunedol, cylchlythyron a gwefannau i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg a'i bwysigrwydd i'r gymuned – gallech hyd yn oed ddefnyddio'r dulliau hyn fel modd o ddosbarthu'r holiadur ei hun.

### Arolygon ar-lein

Gallwch greu arolwg ar-lein drwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael ar-lein (fel arfer am ddim), a gallwch roi cyhoeddusrwydd iddo drwy wefannau, tudalennau Facebook ac unrhyw gyfryngau cymdeithasol eraill sydd ar gael i chi eu defnyddio.

### Ffyrdd eraill o ymgynghori â'r gymuned

Fel arall, gallech drefnu i gynnal arolwg ar garreg y drws neu drefnu 'diwrnod agored' yn y gymuned – yn y neuadd bentref neu'r ganolfan gymunedol, efallai. Bydd llawer o gymunedau eisoes wedi mynd ati i lunio cynllun cymunedol a elwir weithiau'n Gynllun Bro. Gall hon fod yn ddogfen ymgynghorol ddefnyddiol i gael tystiolaeth ohoni am y materion sydd o bwys i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn eich cymuned. Gall eich cyngor cymuned neu gyngor plwyf hefyd fod yn ffynhonnell wybodaeth dda.

**Gwrando – Cyfathrebu – Ymgysylltu**





## Rhanddeiliaid eraill

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â busnesau lleol a sefydliadau cymunedol eraill fel rhan o'ch ymarfer ymgynghori. Yn ogystal â darparu cefnogaeth, gallent ddod yn bartneriaid gwerthfawr maes o law.

## Cynnal cyfarfod cyhoeddus

Gallech gynnal cyfarfod cyhoeddus i fesur maint y gefnogaeth i'r prosiect ac i godi ymwybyddiaeth ohono. Fodd bynnag, ni ddylech ond gynnal cyfarfod cyhoeddus pan fydd gennych rywbeth i'w ddweud a phan fyddwch yn hyderus eich bod yn gwybod digon am gefndir siopau cymunedol a'ch amgylchiadau penodol chi er mwyn ichi allu cyflwyno'r cysyniad a'r opsiynau i'r gymuned ehangach. Gall Plunkett eich cynorthwyo â hyn drwy ddarparu deunyddiau, ffeithiau a ffigurau ar gyfer cyflwyniadau. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn gwybod yn union beth yr hoffech ei gyflawni drwy gynnal y cyfarfod, a bod y cadeirydd yn gwybod beth y mae'n rhaid penderfynu arno yn y cyfarfod, os o gwbl.

Mae'r cyfarfod cyhoeddus yn adeg ddelfrydol i roi diweddariad i'r gymuned am ganlyniadau'ch gwaith ymchwil hyd yma (canlyniadau'r holiaduron ac unrhyw adborth arall). Gwnewch yn siŵr bod gennych ddeunydd gweledol trawiadol i ddarlunio'ch data.

Dylech gynnal cyfarfodydd mewn man cyfarfod cydnabyddedig â digon o le – fel neuadd bentref neu ysgol. I ddenu trawstoriad mor eang â phosibl o'r gymuned, y peth gorau i'w wneud yn aml yw cynnal cyfarfodydd ar benwythnosau. Lle bo modd, ni ddylai'r cyfarfodydd bara mwy na 90 munud, a rhaid paratoi agenda neu amserlen ymlaen llaw. Efallai na fydd rhai pobl eisiau siarad yn gyhoeddus yn ystod y cyfarfod, felly rhannwch ffurflenni i roi cyfle i bobl fynegi eu barn a dweud a fyddent yn hoffi bod yn rhan o'r fenter neu a ydynt am wneud addewid. Gwnewch yn siŵr hefyd fod aelodau'r grŵp llywio ar gael i ateb cwestiynau.

Pan fyddant yn asesu'ch ceisiadau i gael grantiau neu fenthyciadau, bydd cyrff ariannu posibl yn mynnu eich bod wedi ymgynghori, a byddant yn gofyn i gael gweld tystiolaeth o'r ymgynghori hwnnw. Felly, neilltuwch amser i grynhoi, i gofnodi ac i hyrwyddo canlyniadau'ch gwaith ymchwil, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r cyfarfod cyhoeddus.

## 2. Ffurfio grŵp llywio

Er nad oes busnes go iawn wedi'i sefydlu hyd yma, mae angen pwyllgor neu grŵp llywio i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli'r prosiect i sefydlu siop gymunedol newydd. Os oes grŵp mawr o bobl wedi ymrwymo i'r prosiect, mae'r pwyllgor hefyd yn rhoi ffocws a llais i'r grŵp mwy.

Bydd grwpiau llywio yn aml yn ffurfio ar hap, a byddant yn aml yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n ymwneud fwyaf â'r syniad ac sydd wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori. Ond, o bryd i'w gilydd, mae'n werth chwilio am bobl o'r gymuned ehangach drwy, er enghraifft, alw ar bobl i gamu ymlaen mewn cyfarfod cyhoeddus.

Mae'n bwysig cael cymysgedd da o sgiliau, felly mae'n fuddiol egluro pa sgiliau y byddai'n ddymunol eu cael neu ba sgiliau nad yw aelodau gwreiddiol y grŵp yn meddu arnynt. Ymhlith y sgiliau sydd eu hangen mae sgiliau rheoli busnes, sgiliau ariannol (e.e. cyfrifyddeg), sgiliau adnoddau dynol, sgiliau codi arian a chysylltiadau cyhoeddus, sgiliau ysgrifennu (i ysgrifennu'r cynllun busnes ac unrhyw geisiadau grant), sgiliau cyfreithiol, a sgiliau cyfathrebu/cyfryngau cymdeithasol, ac ati.

Mae'r grŵp llywio'n debygol o ddarparu'r aelodau sefydlu er mwyn corffori'r busnes cymunedol, a bydd yn dod yn sail (gyda rhai ychwanegiadau neu hepgoriadau) ar gyfer y pwyllgor rheoli (neu fwrdd) cyntaf.

Mae'n syniad da i'r grŵp llywio amlinellu ei nodau a'i amcanion o'r dechrau'n deg, yn ogystal â dyrannu swyddogaethau a chyfrifoldebau i'w aelodau er mwyn iddo gael pwrpas a nod clir.

Bydd angen i'r grŵp asesu'n ofalus hyfywedd siop gymunedol, gan bwyso a mesur pob opsiwn posibl o ran sut y gellir ei sefydlu a'i rheoli, a sut y bydd yn gweithio i gynrychioli buddiannau neu bryderon y gymuned ehangach.

Dylai'r grŵp llywio gynnwys o leiaf dri a hyd at 12 person. Dylai fod ganddo o leiaf Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. Gall tîm bach wneud penderfyniadau'n gyflymach, ond gall y llwyth gwaith beri i'r aelodau chwythu'u plwc. Felly, mae'n arfer da cael pedwar i chwe aelod arall â swyddogaethau penodol i arwain is-bwyllgorau, megis:

- **Cynllunio Busnes** – sefydlu'r strwythur cyfreithiol, llunio'r cynllun busnes, dechrau cyllidebu ar gyfer yr incwm a'r gwariant.
- **Codi arian** – pennu amcan o'r costau sefydlu, llunio cynllun codi arian, agor cyfrif banc, a dechrau codi arian.
- **Gweithrediadau** – penderfynu a fydd y siop yn cael ei rheoli neu'i lesio, sefydlu unrhyw delerau neu baramedrau o ran sut y bydd y busnes yn cael ei redeg, ystyried pa nwyddau y bydd y siop yn eu stocio a'u gwerthu a pha wasanaethau eraill y bydd yn eu darparu.
- **Cyfathrebu** – rhoi gwybod i'r gymuned am hynt y prosiect a chynnal ei diddordeb ynddo, recriwtio gwirfoddolwyr, a sicrhau bod y prosiect yn hwyl! Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn adnoddau rhagorol ar gyfer y gwaith hwn. Dylech ddechrau meddwl am frandio a marchnata, creu gwefan, creu tudalen grŵp Facebook, ac ati, i gynorthwyo i rannu'ch syniadau ac i roi gwybod i bobl am unrhyw gynnydd a wnaed.

O ran egwyddor, ar ôl ichi rannu'r llwyth gwaith, bydd yr is-bwyllgorau'n rhoi adborth i'r prif bwyllgor. Ond, mewn gwirionedd, bydd gweithgareddau'r is-bwyllgorau'n gorgyffwrdd â'i gilydd ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig cwrdd yn rheolaidd a gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chyflwyno a'i chofnodi mewn cyfarfodydd er mwyn i'r grŵp llywio allu gwneud penderfyniadau gwybodus.



## 3. Dewis strwythur cyfreithiol addas

Mae siopau cymunedol yn masnachu, yn cyflogi staff, yn rheoli gwirfoddolwyr, ac yn ymrwymo i gontractau a threfniadau ariannol. Felly, mae arnynt angen endid cyfreithiol i ddiogelu'r unigolion sy'n rhedeg y busnes drwy roi iddynt atebolrwydd cyfyngedig, ac mae arnynt hefyd angen strwythur cyfreithiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, fel treth, yswiriant, safonau masnach a hawliau cyflogaeth.

Rydym yn argymell bod siopau cymunedol yn mabwysiadu strwythurau cyfreithiol sy'n galluogi perchnogaeth gymunedol go iawn, gyda rheolaeth gyfartal a democrataidd. Byddem yn disgwyl i hyn gynnwys:

- Blaenoriaethu buddiannau'r gymuned ehangach ar draul anghenion eu haelodau neu'u buddsoddwyr
- Sicrhau bod rheolaeth drwy bleidlais yn cael ei breinio yn yr aelodau'n gyfartal, nid yn ôl cyfran yr arian a fuddsoddwyd ganddynt yn y gymdeithas: un aelod, un bleidlais
- Caniatáu i arian gael ei godi drwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol (ffordd lwyddiannus o godi arian)
- Ailfuddsoddi unrhyw elw masnachu er budd cymdeithasol neu gymunedol
- Yn gyffredinol, cynnwys clo asedau os yw ased yn cael ei brynu.

Yn ystod 2014, daeth y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol i rym, gan gyfuno sawl darn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus. Cymdeithas Budd Cymunedol yw'r strwythur a ddewisir amlaf gan siopau cymunedol. Ymhlith y strwythurau addas eraill a fabwysiadwyd gan gymunedau mae Cwmni Budd Cymunedol, Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, a Chymdeithas Gydweithredol.

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn bodoli er budd cydfuddiannau ehangach y gymuned, yn hytrach nag er budd ei staff, aelodau ei phwyllgor neu'i buddsoddwyr. Mae hyn yn gydnaws â'r nodau a'r amcanion a nodir gan y rhan fwyaf o grwpiau cymunedol sy'n sefydlu siop gymunedol. Mae strwythur Cymdeithas Budd Cymunedol hefyd yn pwysleisio ei haelodau a'r rhan y mae ei haelodau'n ei chwarae.

Un o fanteision eraill strwythur cyfreithiol Cymdeithas Budd Cymunedol yw bod modd cynnig cyfranddaliadau cymunedol ac, ers 2012, codwyd £30,654 y siop ar gyfartaledd tuag at y costau sefydlu drwy'r dull hwn.

Mae Plunkett yn cynghori pob cymuned i ddarllen **A Guide to the Essential Steps for Setting Up a Rural Community Business** ac i ofyn am alwad gyda chynghorydd i gael trosolwg ar yr holl strwythurau gwahanol a allai fod yn briodol ar eu cyfer. Yn ogystal â Rheolau Enghreifftiol Plunkett ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol, bydd Co-operatives UK a sefydliadau eraill hefyd yn gallu darparu Rheolau Enghreifftiol ar gyfer busnesau cymunedol.





## 4. Deall a datblygu eich trefniadau llywodraethu

Mae'r term 'llywodraethu' yn cyfeirio at y broses benderfynu fewnol sy'n sicrhau bod y sefydliad yn atebol a bod ganddo gyfeiriad strategol. Caiff y prosesau hyn eu nodi'n bennaf yn y ddogfen lywodraethu, ac fe'u hategir gan unrhyw bolisïau ychwanegol neu reolau eilaidd.

Mae'r pwyllgor rheoli'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros lywodraethu'r busnes, a gall fod ar yr aelodau angen hyfforddiant i wneud eu swyddi.

Yn ddelfrydol, bydd gan bob busnes cymunedol ddogfen lywodraethu (a elwir weithiau'n gyfansoddiad, yn gytundeb, yn rheolau neu'n erthyglau) sy'n adlewyrchu ac yn nodi'n glir pa fath o sefydliad ydyw, beth yr hoffai'r grŵp i'r sefydliad ei wneud, pwy all fod yn rhan o'r sefydliad (aelodau), sut y caiff penderfyniadau eu gwneud, beth sy'n digwydd i unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn, a beth all ddigwydd i'r asedau os bydd y sefydliad yn cau, yn uno â sefydliad arall neu'n cael ei werthu.

Bydd y dogfennau llywodraethu hefyd yn cynnwys neu'n adlewyrchu gofynion penodol unrhyw strwythur cyfreithiol neilltuol, felly mae'n bwysig dewis dogfen lywodraethu a strwythur cyfreithiol sy'n gydnaws â'i gilydd. Er enghraifft, os ydych am gael clo asedau yn eich dogfen lywodraethu, bydd arnoch angen strwythur cyfreithiol sy'n caniatáu ar gyfer clo asedau, fel Cwmni Buddiant Cymunedol neu Gymdeithas Budd Cymunedol.

### Llywodraethu a gweithrediadau

Gellir diffinio'r drefn lywodraethu ymhellach drwy greu llawlyfr siop sy'n cynnwys gweithdrefnau, diagram o'r sefydliad, a disgrifiadau swyddi, ynghyd â phecynnau cynefino ar gyfer aelodau'r pwyllgor.

Dylai hefyd gynnwys gwerthoedd craidd a datganiad cenhadaeth, polisïau (gweler adran 9) a gweithdrefnau hyfforddi.

### Llywodraethu ac aelodaeth

Mae sefydliadau sy'n eiddo i'w haelodau, fel Cymdeithasau Budd Cymunedol, yn ceisio darparu buddion i'w cymunedau.

Ymhlith manteision cael nifer fawr o aelodau mae:

- Cael mwy o bobl a chanddynt fuddiant ariannol yn y broses o weithredu'r fenter a mwy o bobl sy'n debygol o'i defnyddio'n rheolaidd
- Cael mwy o bobl sy'n mynd i gyfarfodydd blynyddol yr aelodau a chyfarfodydd pwyllgor ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfeiriad cyffredinol y busnes
- Cael cronfa fwy hygyrch o bobl i alw arni pan fydd nifer aelodau'r pwyllgor yn gostwng, neu pan fydd angen mwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo i redeg y busnes.

Mae Rheolau Enghreifftiol Plunkett yn ei gwneud yn ofynnol i Gymdeithasau Budd Cymunedol gael eu strategaeth aelodaeth eu hunain i sicrhau bod 'aelodaeth' yn parhau i fod wrth galon y fenter, drwy i'r gymdeithas barhau i dyfu ei haelodaeth a pharhau i ymgysylltu â'i haelodau.

Mae llywodraethu da yn hollbwysig i lwyddiant menter sy'n eiddo i'w haelodau, ac mae'n hanfodol bod yr aelodau'n cael eu cynnwys yn y broses benderfynu drwy ethol pwyllgor rheoli yng nghyfarfod blynyddol yr aelodau. Mae angen i fenter sy'n seiliedig ar aelodaeth sicrhau ei bod yn annog aelodau newydd i ymuno â hi a bod systemau a phrosesau sy'n ymwneud â llywodraethu ac aelodaeth yn eu lle.

## 5. Dod o hyd i safle addas

Bydd prosiectau siopau cymunedol yn aml yn ystyried yn gyntaf prynu hen safle siop. Ond, er y gall ymddangos ar yr wyneb mai safle o'r fath yw'r safle mwyaf addas, gall hefyd fod yn ddrud iawn, gall fod angen ei adnewyddu, a gall fod ynddo ychydig iawn o le i storio nwyddau neu i ddarparu gwasanaethau eraill i'r gymuned, fel caffi neu fan cyfarfod. Yn ddelfrydol, dylai'r siop fod mewn man canolog, bod yn amlwg i siopwyr sy'n mynd heibio, bod yn hawdd cael hyd iddi, bod mewn lle hygyrch ar droed ac mewn car, a bod wrth ymyl darpariaeth dda i barcio ceir. Mae safle ag arwynebedd llawr siop o 500 troedfedd sgwâr yn faint da i anelu ato.

Os nad yw'n bosibl neu'n ymarferol prynu neu lesio safle siop sy'n bodoli eisoes, dylech ystyried opsiynau addas eraill, fel y rhai a ganlyn:

- Mantais adeiladau newydd yw eu bod yn cael eu hadeiladu at y diben, eu bod yn fwy na siopau pentref traddodiadol, a bod modd iddynt gyd-letya gwasanaethau eraill, fel caffis, mannau cyfarfod a gofodau masnachol eraill neu ofodau preswyl.
- Mae estyniadau i'r neuadd bentref neu'r ganolfan gymunedol yn darparu safle o faint da, gyda lleoedd parcio, ac yn gyfle i leoli'r siop ar y cyd â gweithgarwch sydd eisoes yn digwydd yn y gymuned.
- Mae adeiladau symudol yn ddewis hyblyg, rhatach, ac maent yn fodd effeithiol o brofi hyfywedd siop gymunedol cyn mynd ati i godi'r holl arian sydd ei angen i gael safle parhaol.
- Mae addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes, fel swyddfeydd, gweithdai, adeiladau fferm, mannau addoli ac ati, yn darparu safleoedd amlbwrpas llawn cymeriad ar gyfer siopau.
- Gall y dafarn leol fod yn barod i letya siop mewn ystafell sbâr, neu'n barod i ddarparu tŷ allan i'w addasu neu hyd yn oed le yn ei maes parcio i godi adeiladau parhaol neu adeiladau dros dro.

Collodd **Brent Knoll** ei siop bentref ar 1 Mawrth 2020 pan benderfynodd y perchennog nad oedd y siop yn hyfyw mwyach o safbwynt masnachol. Yn ystod y pandemig, aeth grŵp ati i ailagor y siop fel "siop frys" cyn gosod cynhwysydd llong ym maes parcio'r neuadd bentref a rhedeg y siop o'r fan honno. Yn y pen draw, symudodd y siop i adeilad pwrpasol gyda chefnogaeth y Cyngor Plwyf a aeth ati i ddymchwel hen dai bach cyhoeddus ac adeiladu tai bach newydd hygyrch ac adeilad sylfaenol ar gyfer y siop gymunedol.

Pan oeddent yn chwilio am safle i agor siop, aeth pentrefwyr Beech Hill yn Berkshire ati i ddylunio cypyrddau a chabinetau i agor siop gymunedol a chaffi yn eu heglwys Anglicanaidd a oedd yn dyddio o'r 19eg ganrif. Yn ystod gwasanaethau'r eglwys a phriodasau, gellir cau'r siop y tu ôl i ddrysau pwrpasol.

## 6. Llunio cynllun busnes

Mae cynllun busnes yn offeryn gwerthfawr er mwyn pennu nodau ac amcanion eich siop, diffinio'r hyn yr ydych eisiau i'r siop ei gynnig, a nodi sut y bydd y busnes yn gweithredu. Bydd eich cynllun busnes hefyd yn cynnwys rhagolygon ariannol ar gyfer y siop, gan gynnwys y costau sefydlu cychwynnol a'r costau parhaus. Ar y sail hon, gallwch bennu faint o arian y mae angen i'r busnes ei godi drwy'r gweithgarwch codi arian cychwynnol a thrwy'r gwerthiant yn y dyfodol er mwyn iddo fod yn fusnes hyfyw a chynaliadwy. Dylech ystyried y cynllun yn ddogfen fyw y byddwch yn ei hadolygu a'i diwygio wrth i'r busnes ddatblygu.



Dylai cynllun busnes gynnwys o leiaf bum neu chwe thudalen, a dylai gynnwys rhagolwg llif arian, yn ogystal â rhagolygon incwm a gwariant ar gyfer y tair blynedd gyntaf. Mae hefyd angen i'r cynllun busnes drafod manylion nodau, gwerthoedd, strwythur cyfreithiol ac aelodaeth y sefydliad, ei gynhyrchion, ei weithrediadau, ei strwythur staffio, ei farchnadoedd a'i gynlluniau datblygu, yn ogystal ag asesiad o'r effeithiau buddiol y mae'r siop yn debygol o'u cael ar y gymuned.

Bydd arnoch angen eich cynllun busnes i gefnogi unrhyw gais mawr i gael arian grant, a bydd hefyd yn bwysig i ddangos i arianwyr grant y mathau o effeithiau cymdeithasol y bydd eich busnes yn eu cael, ynghyd â thystiolaeth y bydd yn dod yn hunangynhaliol. Yn yr un modd, os byddwch yn ceisio codi arian drwy fenthyciad, bydd angen i'ch cynllun busnes ddangos eich bod yn hyderus y gallwch ysgwyddo'r ad-daliadau.

Os ydych yn bwriadu defnyddio cynllun cyfranddaliadau i godi arian i brynu neu i adnewyddu'ch siop, bydd eich cynllun busnes hefyd yn dod yn ddogfen gyfeirio i unrhyw un sy'n ystyried buddsoddi mewn cyfranddaliadau. I gefnogi cynigion eich cynllun cyfranddaliadau a dilysu eich honiadau, dylech ystyried gwneud cais i gael Nod Safon Cyfranddaliadau Cymunedol lle y bydd ymarferwr trwyddedig yn craffu ar eich cynllun busnes, eich cynllun cyfranddaliadau a'ch dogfen lywodraethu.

Dyfernir y Nod Safon i gynlluniau cyfranddaliadau cymunedol sy'n bodloni safonau arferion da yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol, a bwriedir iddo ddiogelu buddsoddwyr. Bydd angen i gynllun busnes sy'n rhan o gynllun cyfranddaliadau cymunedol sy'n ceisio ennill y Nod Safon ddangos sut a phryd y bydd y gymdeithas yn darparu hylifedd cyfranddaliadau i'r aelodau a sut a phryd y bydd mewn sefyllfa i dalu llog (os yw wedi addo talu llog). Bydd hefyd angen iddo ddarparu tystiolaeth o'r cyfle marchnad a'r sylfaen gwsmeriaid i gyfiawnhau'r rhagolygon gwerthiant, nodi'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r model busnes arfaethedig, a darparu mesurau wrth gefn credadwy i liniaru'r risgiau hynny.

I gael mwy o wybodaeth am y Nod Safon, gweler *communityshares.org.uk*

Gall fod gan aelod o'ch pwyllgor neu rywun sy'n byw yn y pentref brofiad o ysgrifennu cynlluniau busnes, a gall fod yn barod i'ch cynorthwyo. Gall Plunkett hefyd eich cynorthwyo drwy wasanaeth cynghorydd a thrwy ddarparu adnoddau ac enghreifftiau o siopau cymunedol llwyddiannus eraill ichi. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ganllaw Plunkett: **An introduction to preparing a business plan for a community business**.



## 7. Codi arian

Bydd pob grŵp sy'n mynd ati i sefydlu siop gymunedol yn wynebu'r dasg o godi arian er mwyn dechrau. Peidiwch â gadael i'r her o godi arian eich digalonni: ceir nifer di-ri o enghreifftiau o siopau cymunedol sydd wedi mynd ati, ar sail cynllun priodol, i godi symiau sylweddol o arian, hyd yn oed mewn mannau lle y mae arian yn gymharol brin.

Mae digwyddiadau codi arian cymunedol a cheisiadau am roddion yn ffyrdd pwysig o ymgysylltu ag aelodau'r gymuned ac ennyn eu hymrwymiad i'r prosiect. Dylid ystyried y rhain fel mentrau sy'n ategu dulliau eraill o godi arian, a dylid parhau i'w defnyddio drwy gydol y cyfnod codi arian i gynnal proffil y prosiect. Os ydych yn gofyn am roddion, mae'n werth ystyried cydweithio ag elusen bentref a allai roi cyfle i bobl ddarparu Rhodd Cymorth gyda'u rhoddion.

Mae ceisiadau i gael arian grant yn ffynhonnell codi arian draddodiadol a fydd yn cyfrannu arian hanfodol i'r prosiect. Serch hynny, mae cael gafael ar arian grant yn broses gynyddol anodd a chystadleuol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael hyd i rywun sy'n barod i fuddsoddi'r amser sy'n ofynnol i wneud ceisiadau grant oherwydd gall fod yn broses estynedig a dwys.

Yn aml, bydd arianwyr grant am weld bod y pentref yn darparu arian cyfatebol, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried eich opsiynau lleol yn gyntaf: gall cynghorau cymuned/plwyf, grwpiau pentref ac elusennau pentref fod yn gefnogol iawn ac, o brofi bod gennych gefnogaeth leol, bydd arianwyr cenedlaethol yn ystyried eich cais yn gadarnhaol iawn.

Mae gwerthu cyfranddaliadau yn eich siop yn ffordd dda o godi arian yn y gymuned ac yn ffordd bwysig o recriwtio aelodau.

O dan fodelau Cymdeithasau Budd Cymunedol a Chymdeithasau Cydweithredol, gellir gwerthu "cyfranddaliadau cymunedol" sydd wedi bod yn ffactor pwysig iawn o ran datblygu siopau cymunedol. Yn ogystal â chynorthwyo'r fenter newydd yn ariannol, mae aelodau sy'n gyfranddalwyr yn ymrwymo i weledigaeth y siop gymunedol ac yn fwy tebygol o fod yn gwsmeriaid, yn wirfoddolwyr, ac yn gefnogwyr hirdymor sydd am chwarae rhan weithredol yn nyfodol y siop. Yn yr un modd â rhoddion ac ariannu lleol, dylech dynnu sylw at swm yr arian a godir yn eich cymuned drwy'r dull hwn pan fyddwch yn gwneud ceisiadau i gael arian grant.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am arweiniad cyn ichi gyhoeddi cynnig cyfranddaliadau (gall Plunkett eich cynorthwyo) oherwydd, er nad yw cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio, mae digonedd o enghreifftiau ar gael o arferion gorau cydnabyddedig a all roi mwy o amddiffyniad i'r buddsoddwyr a'r gymdeithas, yn ogystal â gwella canlyniad y cynnig. I gael mwy o wybodaeth am gyfranddaliadau cymunedol a'r Nod Safon Cyfranddaliadau Cymunedol, ewch i *www.communityshares.org.uk*.

Fel sefydliadau masnachu a chanddynt record dda, mae siopau cymunedol yn dibynnu mwy a mwy ar fenthyciadau i ariannu'u costau sefydlu. Ceir nifer o Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol a chanddynt wybodaeth benodol am siopau cymunedol, a dealltwriaeth benodol ohonynt, a all ddarparu benthyciadau a chymorth ar gyfradd fforddiadwy. Mae hefyd yn werth mynd ati ar y cyd â'ch cyngor cymuned/plwyf i ystyried Benthyciad Gwaith Cyhoeddus, sef benthyciad 'cyhoeddus' fforddiadwy y gellir ei ddarparu ar gyfer y math hwn o fenter gymunedol.

Mae gan Plunkett ddau gyhoeddiad a all eich cynorthwyo i godi'r arian sydd ei angen arnoch: **Raising the Funds to Finance your Community Business and Funding a Community Business with Community Shares**.

## 8. Gweithwyr a gwirfoddolwyr

Mae staffio eich siop â'r bobl iawn yn flaenoriaeth uchel, ac mae'n werth cymryd pwyll i ddod o hyd i'r setiau sgiliau cywir. Mae'n ddefnyddiol ymweld â siopau cymunedol eraill i siarad â'u pwyllgorau a'u rheolwyr; o wneud hyn, gallwch ddysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau pobl eraill. Mae'n hanfodol bod gennych gontractau da, a dylai fod gennych ddealltwriaeth dda o'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, y ddarpariaeth cyflenwi ar gyfer gwyliau, ac ati.

Mae gan ACAS God Ymarfer statudol ar weithdrefnau disgyblu a chwynion cyflogaeth sy'n darparu canllawiau ymarferol sylfaenol i gyflogwyr, cyflogeion a'u cynrychiolwyr ac yn amlinellu egwyddorion ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd disgyblu a chwynion cyflogaeth yn y gweithle.



## Recriwtio rheolwr

Mae siopau cymunedol fel arfer yn cyflogi isafswm o aelodau staff, fel rheolwr amser llawn neu ran-amser, a chynorthwywyr gwerthu rhan-amser os yw'r cynllun busnes yn dangos y bydd y siop yn gallu eu fforddio.

Mae siopau fel arfer yn agored am oriau hir ac felly mae'n syniad da asesu'r amseroedd hollbwysig pan fo'n rhaid i'r rheolwr fod ar lawr y siop.

Os yw'n bosibl, cyn mynd ati i recriwtio rheolwr, dylech asesu pa bryd yn ystod yr wythnos y bydd eich prif gyflenwyr yn dod â nwyddau i'r siop. Ar y diwrnodau hynny, dylai'r rheolwr fod ar gael i dderbyn y nwyddau hynny, i oruchwylio'r gwaith o logio'r stoc ar system EPOS (pwynt gwerthu electronig) (os y'i defnyddir) a llenwi'r silffoedd, ac i osod archebion newydd. Bydd hyn yn rhoi paramedrau ichi eu defnyddio pan fyddwch yn cyf-weld. Er enghraifft, os ydych yn gwybod bod dydd Mawrth yn ddiwrnod pwysig pan fydd nwyddau'n dod i'r siop ac nad yw ymgeisydd yn mynd i allu gweithio ar y diwrnod hwnnw o gwbl, mae gennych broblem.

Mae angen i'r pwyllgor lunio disgrifiad swydd a phrofiad a sgiliau dymunol, a glynu wrthynt. Gall fod rhesymau pam y gallech fod am gyflogi rhywun nad yw'n meddu ar bob un o'ch rhinweddau dymunol, ond dylai feddu ar y rhan fwyaf ohonynt! Mae'n bwysig sicrhau bod y rheolwr, ar ôl ei benodi, yn deall ei ddisgrifiad swydd yn llwyr ac yn cytuno ag ef.

Bydd y rheolwr yn adrodd i'r pwyllgor rheoli ac mae'n werth gwneud yn siŵr bod y dasg hon yn cael ei neilltuo i un aelod o'r pwyllgor, neu gall arwain at ddryswch, yn enwedig os bydd aelodau eraill o'r pwyllgor yn ymweld â'r siop yn aml.

## Gwirfoddolwyr

Gan mai ychydig iawn o weithwyr y mae'r rhan fwyaf o siopau cymunedol yn eu cyflogi, maent yn dibynnu ar wirfoddolwyr i'w cynorthwyo i redeg y siop. Dylid ystyried hyn yn rhywbeth cadarnhaol yn hytrach na rhywbeth negyddol: gall gwirfoddolwyr â chymhelliad ddod â busnes yn fyw a rhyngweithio â'r cwsmeriaid.

I fod yn effeithiol, mae angen rheoli gwirfoddolwyr mewn ffordd ofalus a sensitif, a dylent deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y busnes. Dylai fod gan wirfoddolwyr ddisgrifiad ysgrifenedig o'u rôl sy'n nodi faint o amser y disgwylir iddynt ei neilltuo, i bwy y maent yn atebol, unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol y maent yn eu hysgwyddo, ac unrhyw dasgau penodol y bydd gofyn iddynt eu cyflawni.

Gall gwirfoddolwyr gynorthwyo mewn sawl ffordd, gan gynnwys mewn rolau craidd yn y siop ei hun, fel gweithio wrth y til neu roi nwyddau ar y silffoedd. Mae llawer o weithgareddau'n elwa o gael cymorth cadarn gan wirfoddolwyr, fel gwaith cynnal a chadw, gwaith marchnata, gwaith cyfrifyddu, gwaith codi arian, a gwaith cyfryngau cymdeithasol a datblygu gwefan.

## 9. Polisïau a gweithdrefnau

Dylai'r gwirfoddolwyr a'r gweithwyr fod yn gyfarwydd â llawlyfr y siop a grybwyllir yn adran 4, a dylai pawb sy'n gweithio yn y siop ei hun wybod am bolisïau a gweithdrefnau'r siop, fel trin arian, gweithdrefnau diogelwch, hylendid, trefnau glanhau, cadw cofnodion, y llyfr damweiniau a'r llyfr dydd, trefnau agor a chau'r siop, gofynion storio cynhyrchion COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd), ac ati.

Mae angen tynnu sylw penodol at rai polisïau a gweithdrefnau:

### Trin arian parod a rheolaethau ariannol

Mae trin arian parod yn fater pwysig ac, i ddiogelu'r busnes a'r gweithwyr/gwirfoddolwyr, dylid rhoi mesurau llym ar waith i ddiogelu rhag colled a lladrad. Gall hyd yn oed y gweithwyr mwyaf gofalus a gonest wneud gwallau dynol, ac mae'n hollbwysig rhoi rhwystrau a gwrthbwysau ar waith i logio gwallau dynol ac i dynnu sylw at unrhyw achosion lle y bydd arian parod yn mynd ar goll. Yn ddelfrydol, dylai dau neu ragor o bobl fod yn rhan o'r gweithdrefnau trin arian parod, o'r pwynt talu i'r bancio, gyda'r unigolion hyn i bob pwrpas yn eu gwirio ei gilydd. O ysgrifennu'r prosesau'n glir, cadw cofnodion gofalus a rhoi'r un hyfforddiant i bawb, bydd yn lleihau nifer y cyfleoedd i ladrata hefyd. Bydd mwyafrif y gwerthu'n digwydd drwy daliadau â chardiau, a bydd hyn yn lleihau'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer gwallau.

Os ydych yn gosod camerâu teledu cylch cyfyng, gwnewch yn siŵr eich bod yn gosod un camera yn union uwchben y til. Hefyd, gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall y rheolau o ran symiau'r arian parod a adewir yn y coffor dros nos, ac yn glynu wrthynt.

Yn yr un modd, rhaid i'r pwyllgor gadw rheolaeth ariannol ofalus ar y busnes cyfan, gan ddiffinio'r cyfrifoldebau dros fancio, cadw cyfrifon a chyfrifyddu yn glir, awdurdodi'r prosesau prynu a thalu biliau y cytunwyd arnynt, a chyflwyno adroddiad cynhwysfawr y trysorydd i'r pwyllgor cyfan ym mhob cyfarfod.

### Telerau credyd

Mae rhai siopau cymunedol yn cynnig credyd i'w cwsmeriaid ac mae ffyrdd gweddol soffistigedig o wneud hyn drwy systemau EPOS. Gallwch ystyried cynnig "credyd gwrthdro" sy'n golygu bod rhaid i'r cwsmer dalu ymlaen llaw i gychwyn, ac yna gall brynu heb ddefnyddio'i waled hyd nes i'r credyd hwnnw ddod i ben. Beth bynnag y byddwch yn dewis ei wneud, y rheol sylfaenol yw bod rhaid glynu'n gadarn wrth eich telerau – mae dim credyd yn golygu dim credyd!

### Gwerthu alcohol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael gafael ar y trwyddedau cywir i werthu alcohol. Rhaid i unrhyw fusnes sy'n gweini alcohol i gwsmeriaid fod wedi'i drwyddedu i wneud hynny, ac mae gan bob gwlad yn y DU reolau trwyddedu gwahanol. Cynghorau lleol sy'n gyfrifol am roi trwyddedau, felly fe'ch cynghorir i gysylltu â'ch cyngor i gael yr wybodaeth a'r ffurflenni cais diweddaraf. Bydd angen ichi arddangos hysbysiadau o ran y terfynau oedran ar gyfer gwerthu alcohol mewn man amlwg, a bydd angen i'r staff wybod am y terfynau hyn a chael hyfforddiant rheolaidd. Bydd angen i aelod staff/gwirfoddolwr/aelod o'r pwyllgor fynd ar gwrs hyfforddi.

### Iechyd a diogelwch

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ac arferion gorau o ran prosesau masnachu. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n monitro iechyd a diogelwch, ond rôl Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y cyngor lleol yw ymweld â siopau, yn gyntaf i'w cynghori ac yna i sicrhau bod arferion cywir yn cael eu gorfodi a bod arferion peryglus yn cael eu hatal. Argymhellir eich bod yn cysylltu'n gynnar â'r Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd i roi'r cyfle cynharaf iddynt eich cynghori wrth i'ch prosiect fynd rhagddo.

Mae angen i bob busnes sy'n gwerthu bwyd wybod am y rheoliadau diogelwch bwyd, y canllawiau o ran alergenau, a'r rheoliadau hylendid, a chydymffurfio â nhw. Mae angen cymhwyso'r rhain i'r modd y mae bwyd yn cael ei storio, ei arddangos, ei drin a'i werthu. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi llunio pecyn arbennig ar gyfer manwerthwyr sy'n egluro'r rheoliadau diogelwch bwyd – 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell'. Gellir ei archebu am ddim oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd drwy fynd i *www.food.gov.uk*

### Asesiadau risg

Pan fyddwch yn rhoi trefn ar y siop, bydd angen i'r pwyllgor sicrhau bod pob risg wedi'i gwirio. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg tân ar gyfer diffoddwyr tân, pennu mannau a gweithdrefnau ymadael mewn argyfwng, a sicrhau bod y gwifrau a'r dyfeisiau trydanol wedi'u gwirio, bod pob larwm yn ei le ac yn gweithio, ac ati. Rhaid cyflawni'r prosesau hyn yn rheolaidd, felly mae'n bwysig cadw cofnodion gofalus i fonitro pa bryd y bydd angen diweddariadau.

## 10. Rhoi trefn ar y siop, cael hyd i gyflenwyr a pharatoi i fasnachu

Pan fyddwch wedi cael gafael ar eich safle a'ch arian, bydd angen ichi ystyried sut 'olwg' fydd ar eich siop, yn ogystal ag ystyried materion ymarferol, fel cynllun y siop, y cyfarpar a'r dodrefn. Pa bynnag olwg a chynllun y byddwch yn eu dewis, cofiwch mai siop sy'n eiddo i'r gymuned yw hi a bod angen iddi fod at ddant cyfran mor eang â phosibl o'r gymuned. Gwnewch yn siŵr bod eich eiliau'n ddigon llydan ar gyfer cadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn. Gallech hefyd fod am ystyried defnyddio cynllun siop sy'n gyfeillgar i ddementia sy'n rhoi blaenoriaeth i fannau clir a threfnus y mae'n hawdd symud o'u cwmpas i leihau dryswch a gorbryder i unigolion â dementia.

Pan fyddwch yn dewis nwyddau a gwasanaethau, dylech eu teilwra yn ôl eich demograffeg.

Fel arfer, bydd siopau cymunedol yn archebu eu nwyddau bwyd craidd gan nifer o gyflenwyr sy'n amrywio o gyflenwyr cenedlaethol i gyfanwerthwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr lleol.

Pan fyddwch yn penderfynu ar y nwyddau y byddwch yn eu stocio, dylech ystyried materion fel faint o gyflenwyr lleol yr hoffech eu defnyddio – ac a fyddant yn cludo'u nwyddau i'r siop ac, os felly pa mor aml, beth yw'r isafswm y gallwch ei archebu, beth yw eu telerau credyd, ac ati. Mae'n bwysig rhoi trefn ar y telerau a'r amodau o'r dechrau'n deg, hyd yn oed yn ystod y broses cynllunio busnes. Mae siopau cymunedol yn aml yn falch iawn o'u cyflenwyr lleol ac mae'n rhywbeth sy'n gwahaniaethu rhyngddynt a'r archfarchnadoedd a'r siopau cyfleus sy'n rhan o gadwyn.

Ystyriaeth bwysig arall yw'r math o ystod brisiau y byddwch yn ei chynnig. Bydd hyn yn dibynnu ar y gynulleidfa y byddwch yn darparu ar ei chyfer, ond mae bob amser yn bosibl darparu ar gyfer sawl cynulleidfa drwy gael nwyddau rhad ochr yn ochr â nwyddau moethus, oni bai fod y gofod yn brin iawn.

Bydd eich polisi stocio'n nodi eich safbwynt o ran nwyddau eraill, fel tocynnau loteri, fêps, sigaréts ac alcohol. Mae rhai siopau'n dewis peidio â stocio sigaréts, tra mae eraill yn darparu dewis bach yn unig. Mae'r rhain yn eitemau uchel eu gwerth, ond mae maint yr elw'n fach. Beth bynnag y byddwch yn dewis ei wneud, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno ar y polisi cyn agor y siop!


Pwynt pwysig arall i'w ystyried yw sut i gofrestru gwerthiant – a ddylai fod gan y siop system EPOS? Ceir amrywiaeth eang o gyfarpar a meddalwedd, o dil electronig sylfaenol hyd at system â nifer o diliau ac EPOS sy'n bwydo gwybodaeth i becyn cyfrifyddu. Dylai eich penderfyniad fod yn seiliedig ar eich trosiant gwerthu tebygol. Eto, mae'n eithriadol o werthfawr ymweld â siopau cymunedol tebyg o ran eu cwmpas a'u maint, a gofyn iddynt am gymorth. Bydd hefyd angen i'r system a ddewisir gennych fod yn addas ar gyfer y bobl sy'n ei defnyddio: os bydd gennych lawer o wirfoddolwyr sy'n gweithio sifftiau byrion, efallai na fydd system gymhleth yn ddelfrydol. Bydd hefyd angen ichi benderfynu sut yr ydych yn mynd i fonitro'r gwerthiant, pa fath o feddalwedd cyfrifyddu y byddwch yn ei defnyddio, a phwy fydd yn cadw'r cyfrifon.



## 11. Rhestr wirio: a ydych wedi meddwl am bopeth?

Bydd llawer o restrau 'pethau i'w gwneud' i'w llunio yn ystod y misoedd y byddwch yn rhoi trefn ar y siop gymunedol! Yn ystod yr wythnosau olaf cyn agor y siop, byddwch wrthi fel lladd nadredd a bydd y rhestr wirio olaf yn cynnwys y pethau a ganlyn:

- Yswiriant: bydd angen yswiriant arnoch ar gyfer yr adeilad, y cynnwys, indemniad cyhoeddus, atebolrwydd cyflogwr.
- Cyfarpar: bydd angen thermomedrau a siartiau cofnodi tymheredd ar gyfer oergelloedd. Ystyriwch ymrwymo i gontractau atgyweirio.
- Pwynt gwerthu: mae'n cymryd mwy o amser nag y byddech yn ei ddychmygu i roi system EPOS ar waith, gan fod rhaid llwytho manylion pob eitem sy'n cael ei stocio i'r system, felly neilltuwch ddigon o amser i wneud hyn. A yw pawb a fydd yn defnyddio'r system wedi cael hyfforddiant digonol? Gwnewch yn siŵr bod rhif ffôn y cyflenwr wrth law rhag ofn y bydd argyfwng!
- Taliadau â chardiau: a fyddwch yn integreiddio taliadau â chardiau â'ch til? Neu a fyddwch yn defnyddio system sglodyn a rhif PIN? Penderfynwch a ydych yn bwriadu darparu taliadau arian-yn-ôl (cashback).
- Alcohol a sigaréts: a ydych wedi cysylltu â'r swyddog trwyddedu? A oes gennych aelod staff hyfforddedig? A ydych yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol?
- Iechyd a diogelwch: a ydych wedi cysylltu â'ch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, ac a oes gennych dystysgrif hylendid?
- Yn olaf, a ydych wedi pwyso a mesur pob un o'r gwasanaethau cymunedol y gall eich siop eu lletya? A oes lle i gael ambell fwrdd bach lle y gall pobl gael paned o goffi? A oes lle i gael llyfrgell llyfrau ail law? A oes gennych le ar gyfer hysbysfwrdd cymunedol? A ydych wedi ystyried mentrau ailgylchu, fel poteli y gellir eu hail-lenwi?



## 12. Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch dyddiad lansio ac agor y siop!

Mae'r diwrnod agor swyddogol yn ddathliad y dylech wahodd y gymuned gyfan iddo a'i hannog i ddod iddo. Hwn yw'ch cyfle i ddangos yr holl waith caled a wnaed, ac mae hefyd yn gyfle delfrydol i farchnata'r siop, a'r gwasanaethau ehangach yr ydych yn eu darparu, i'ch cymuned.

Mae bob amser yn werth cynnal yr agoriad swyddogol rai wythnosau ar ôl dechrau masnachu i roi cyfle ichi ddatrys unrhyw broblemau cychwynnol. I nodi'r digwyddiad, dylech ystyried gwahodd gwestai arbennig neu Aelod Seneddol lleol i agor y siop yn swyddogol, a chofiwch wahodd unrhyw sefydliad sydd wedi darparu arian neu gymorth ichi hefyd. Dylech hefyd estyn gwahoddiad i gymunedau cyfagos a allai fod yn ystyried sefydlu siop gymunedol. Fel arfer, mae'r cyfryngau lleol hefyd yn awyddus iawn i gael eu cynnwys, ac mae'n gyfle da iawn i ddenu cwsmeriaid a chefnogwyr o ardal ehangach.

Yn aml, y penwythnos yw'r amser gorau i gynnal digwyddiad o'r fath er mwyn denu cynifer â phosibl o aelodau'r gymuned iddo. Defnyddiwch arwyddion ffordd i gyfeirio pobl at y siop, defnyddiwch bosteri, balŵns a baneri i dynnu sylw at y digwyddiad a'r hyn a gyflawnwyd gennych, a threfnwch gerddoriaeth, adloniant, a chyfleoedd i flasu rhywfaint o'r bwyd! Cysylltwch â Plunkett pan fyddwch yn barod i agor eich siop oherwydd mae gennym dempledi a deunyddiau amrywiol i'ch cynorthwyo i hyrwyddo'ch camp ragorol; byddwn hefyd yn rhannu'ch llwyddiant â'n rhwydweithiau.




HAMPSTEAD NORREYS
COMMUNITY SHOP
Spirit of Christmas Evening
Thursday 9th November
6pm – 8.30pm
Fruit & Veg Donations

# Ynglŷn â Plunkett UK

## Elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo pobl mewn ardaloedd gwledig i sefydlu ac i redeg ystod eang o fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned yw Plunkett UK.

Rydym yn gwneud hyn i wireddu ein gweledigaeth ledled y DU o gymunedau gwledig cydnerth, llewyrchus a chynhwysol.

Rydym yn cynrychioli dros 800 o fusnesau cymunedol sy'n masnachu ac 800 o fusnesau eraill sydd wrthi'n cael eu sefydlu, o siopau a thafarnau i goetiroedd, ffermydd a physgodfeydd.

Mentrau sy'n eiddo i aelodau'r gymuned ac eraill, ac yn cael eu rhedeg yn ddemocrataidd ganddynt ar ran y gymuned, yw busnesau cymunedol. Ceir busnesau cymunedol o bob lliw a llun, gan gynnwys siopau, tafarnau, coetiroedd, ac unrhyw beth y gall cymuned fod yn berchen arno. Yn ogystal â datblygu a diogelu asedau a gwasanaethau gwerthfawr, mae busnesau cymunedol yn mynd i'r afael â phroblemau amrywiol, gan gynnwys ynysigrwydd, unigrwydd, llesiant, gwaith a hyfforddiant.

Rôl Plunkett yw eirioli o blaid cysyniad busnesau cymunedol, a hyrwyddo'r cysyniad hwnnw, i sicrhau bod cymunedau ledled y DU yn gwybod am y model a'i botensial, yn teimlo y gallant weithredu drostynt eu hunain, ac yn gweithredu mewn amgylchedd cefnogol. Mae Plunkett yn darparu cymorth ymarferol a hyfforddiant i gynorthwyo cymunedau i sefydlu ac i redeg busnesau cymunedol llwyddiannus â chyfraddau goroesi hirdymor.

Mae Plunkett yn falch o'i wreiddiau; fe'i sefydlwyd yn 1919 gan Syr Horace Plunkett, y Gwyddel a oedd yn arloeswr mawr ym maes cwmnïau cydweithredol. Ers dros 100 mlynedd, mae Plunkett wedi cynorthwyo cymunedau gwledig i ffynnu drwy fusnesau cymunedol ac i wella ansawdd bywyd i bawb.

Drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym i fusnesau cymunedol, mae gennym genhadaeth benodol i greu gofodau arloesol, effeithiol a chynhwysol.

Rydym yn cyflawni hyn drwy gynorthwyo busnesau cymunedol i wneud y pethau a ganlyn:

- Darparu ystod eang o wasanaethau ac amwynderau y mae cymunedau'n rhoi gwerth arnynt ac y mae eu hangen arnynt
- Sbarduno'r economi leol drwy gadwyni cyflenwi lleol
- Creu mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli, gan gynorthwyo pobl sydd yn aml wedi'u cau allan o'r farchnad lafur
- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy roi mentrau amgylcheddol gynaliadwy ar waith
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy greu mannau diogel a chroesawgar i bawb.

## Aelodaeth Plunkett UK

Sefydliad aelodaeth yw Plunkett UK. Rydym yn mynd ati i annog y rheini yr ydym yn cydweithio â nhw i ymaelodi, ac maen nhw, yn eu tro, yn ein helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau'r rheini sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Mae ymaelodi â Plunkett yn gyfraniad hanfodol tuag at gynnal ein gwasanaeth er mwyn cynorthwyo busnesau cymunedol ledled y DU ac, yn bwysig iawn, mae'n gyfle i fusnesau cymunedol helpu i siapio'r ffordd y mae ein gwasanaeth yn datblygu, yn ogystal â chyfrannu at ymgyngoriadau eiriolaeth wledig.

Mae'r buddion y mae aelodau Plunkett yn eu cael yn amrywio o wybodaeth, cymorth a chyfleoedd rhwydweithio i wasanaethau am brisiau gostyngedig, digwyddiadau, a chyfle i fod yn rhan o fudiad ehangach.

I gael mwy o wybodaeth am ymaelodi â Plunkett, anfonwch e-bost at *membership@plunkett.co.uk*.

## Cysylltu â ni

Cysylltwch â'r Tîm Busnesau Cymunedol i ofyn am gymorth i sefydlu neu i redeg eich siop gymunedol. Byddwn bob amser yn falch o glywed gennych!

Ffôn: +44 (0)1993 630022

E-bost: *info@plunkett.co.uk*


Cyfeiriad: Plunkett UK, The Quadrangle, Woodstock, Oxfordshire OX20 1LH, Y Deyrnas Unedig.

www.plunkett.co.uk

## Ynghylch Plunkett

Mae Plunkett UK yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl mewn ardaloedd gwledig i sefydlu a rhedeg ystod eang o fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Gwnawn hyn i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y DU gyfan ar gyfer cymunedau gwledig gwydn, ffyniannus a chynhwysol. Mae busnesau sy'n eiddo i'r gymuned yn cael eu perchnogi a'u rheoli gan aelodau'r gymuned sydd â llais cyfartal a democrataidd yn y modd y caiff y busnes ei redeg.

Mae Plunkett wedi hyrwyddo'r model perchnogaeth gymunedol ers dros 100 mlynedd oherwydd ei hanes o ddarparu busnesau gwell i bobl, cymunedau, yr economi, a'r amgylchedd. Heddiw, rydym yn cynrychioli 800 o fusnesau masnachu sy'n eiddo i'r gymuned a 500 arall sydd yn y broses o sefydlu. Mae Plunkett yn codi ymwybyddiaeth o'r model busnes cymunedol, yn darparu cymorth busnes cymunedol ymarferol, ac yn cynrychioli ein haelodau trwy rwydweithio, ymchwilio ac eirioli gyda'r llywodraeth, melinau trafod a chyllidwyr.



**Plunkett UK**
The Quadrangle
Woodstock
Oxfordshire OX20 1LH

+44 (0)1993 630022
info@plunkett.co.uk

**plunkett.co.uk**

Mae Plunkett UK yn elusen gofrestredig, rhif CC 313743 (Cymru a Lloegr) a rhif SC 045932 (yr Alban). Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif cofrestredig 00213235.

Plunkett UK